

## DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

### GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (LOWER GWESTYDD LANE, Y DRENEWYDD, POWYS) 2024

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990") i awdurdodi cau'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn ac i ddarparu ar gyfer y darn o briffordd newydd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn, yn ogystal ag i wella'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod angen cau'r briffordd. Nid awdurdodir cau'r briffordd ond er mwyn gwneud y datblygiad yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan Gyngor Sir Powys ar 21 Mehefin 2022 o dan y cyfeirnod 21/1661/FUL a ddisgrifir yn Atodlen 4 i'r Hysbysiad hwn.

Bydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Lower Gwestydd Lane, y Drenewydd, Powys) 2024 ("y Gorchymyn") yn peidio â chael effaith os daw'r caniatâd cynllunio mewn cysylltiad â'r datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Gellir edrych ar gopiâu o'r Gorchymyn a'r plan a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn ystod oriau agor arferol yng Nghyngor Tref y Drenewydd a Llanllwchaearn, y Groes, Stryd Lydan, y Drenewydd, Powys, SY12 3BB neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1764539.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn, ar y sail:

- nad yw o fewn pwerau Deddf 1990; neu
- na chydymffurfiwyd ag un o ofynion gweithdrefnol Deddf 1990;

o fewn 6 wythnos i 19 Ionawr 2024 wneud cais at y diben hwnnw i'r Uchel Lys.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-cau) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-cau>.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**



**J SADDLER**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

## TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990

### THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (LOWER GWESTYDD LANE, NEWTOWN, POWYS) ORDER 2024

The Welsh Ministers have made an Order under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990 ("the 1990 Act") to authorise the stopping up of the length of highway described in Schedule 1 to this Notice and to provide for the length of new highway described in Schedule 2 to this Notice as well as to improve the area of highway described in Schedule 3 to this Notice. The Welsh Ministers are satisfied that stopping up is necessary, and it will be authorised only in order to enable the development to be carried out in accordance with planning permission granted under Part 3 of the 1990 Act by the Powys County Council on 21 June 2022 with reference 21/1661/FUL described in Schedule 4 to this Notice.

The Stopping Up of Highways (Lower Gwestydd Lane, Newtown, Powys) Order 2024 ("the Order") ceases to have effect if planning permission in respect of the development expires or is revoked.

Copies of the Order and the deposited plan may be inspected free of charge at Newtown and Llanllwchaearn Town Council, The Cross, Broad Street, Newtown, Powys, SY12 3BB or may be obtained free of charge from the address below quoting reference qA1764539.


If a person is aggrieved by the Order, on the grounds that:

- it is not within the powers of the 1990 Act; or
- a procedural requirement of the 1990 Act has not been complied with;

that person may, within 6 weeks of 19 January 2024 make an application for the purpose to the High Court.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/stopping-orders>.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**



**J SADDLER**  
Transport  
Welsh Government

**ATODLEN 1**  
**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

**Y darn o briffordd sydd i'w gau**

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd sy'n rhan o gyffordd bresennol y B4568 â Lower Gwestydd Lane yn y Drenewydd, Powys, sy'n 28 o fetrau yn y man hiraf ac yn 4 metr yn y man lletaf, fel y'i dangosir â llinellau sebra ar y plan a adnewwyd.

**ATODLEN 2**  
**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

**Y darn o briffordd newydd sydd i'w ddarparu**

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd a leolir 65 o fetrau i'r gogledd o gyffordd bresennol y B4568 â Lower Gwestydd Lane yn y Drenewydd, Powys, sy'n mynd i gyfeiriad y gogledd-orllewin ac yna i gyfeiriad y de-orllewin i ailymuno â Lower Gwestydd Lane, ac sy'n 90 o fetrau yn y man hiraf ac yn 5.5 metr yn y man lletaf, fel y'i dangosir â dotwaith ar y plan a adnewwyd.

**ATODLEN 3**  
**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

**Y darn o briffordd sydd i'w wella**

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd sy'n rhan o gyffordd bresennol y B4568 â Lower Gwestydd Lane yn y Drenewydd, Powys, sy'n 33 o fetrau yn y man hiraf ac yn 2 metr yn y man lletaf, fel y'i dangosir â chroeslinellau ar y plan a adnewwyd.

**ATODLEN 4**

**Y Datblygiad**

Trosi'r ysguboriau traddodiadol yn 4 annedd breswyl. Newid 2 ysgubor i ffurfio gerddi iard preifat. Trosi un ysgubor at ddibenion ategol, gan gynnwys ar gyfer boeler biomas. Mae'r gwaith yn cynnwys newid cynllun Lower Gwestydd Lane, darparu 3 lle pasio ac ail-leoli'r fynedfa amaethyddol. Yn ogystal, gwaith tirwedd arfaethedig a chyffredinol, uwchraddio gwaith draenio dŵr brwnt a gwaith cysylltiedig arall.

**SCHEDULE 1**  
**(All measurements are approximate)**

**Length of highway to be stopped up**

An irregular shaped length of highway being part of the existing junction of the B4568 with Lower Gwestydd Lane at Newton, Powys with a maximum length of 28 metres, and a maximum width of 4 metres, as shown by zebra hatching on the deposited plan.

**SCHEDULE 2**  
**(All measurements are approximate)**

**Length of new highway to be provided**

An irregular shaped length of highway located 65 metres north of existing junction of the B4568 with Lower Gwestydd Lane at Newton, Powys, heading in a north westerly then south westerly direct to re-join to Lower Gwestydd Lane, with a maximum length of 90 metres, and a maximum width of 5.5 metres as shown by stipple hatching on the deposited plan.

**SCHEDULE 3**  
**(All measurements are approximate)**

**Length of highway to be improved**

An irregular shaped length of highway being part of the existing junction of the B4568 with Lower Gwestydd Lane at Newton, Powys with a maximum length of 33 metres, and a maximum width of 2 metres, as shown by crosshatching on the deposited plan.

**SCHEDULE 4**

**The Development**

Conversion of the traditional barns into 4 residential dwellings. The alteration to 2 barns to form private courtyard gardens. The conversion of one barn for auxiliary uses, including for a biomass boiler. The works include the alteration to the layout Lower Gwestydd Lane, the provision of 3 passing bays and re-siting the agricultural access. Also proposed and general landscape works, upgrading of foul drainage works and other associated works.

